

Y NEGESYDD

MIS HYDREF 2021

GAIR GAN Y GWEINIDOG: Gostyngeiddrwydd Meddylgar

DUW hefyd a'u bendigodd hwynt, a DUW a ddywedodd wrthynt, “Ffrwythwch, ac amlhewch, a llenwch y ddaear, a darostyngwch hi; ac arglwyddiaethwch ar bysg y môr, ac ar ehediad y nefoedd, ac ar bob peth byw a ymsymudo ar y ddaear”.

(Genesis 1: adnod 28 o gyfieithiad Beibl William Morgan argraffiad 1955)

Bendithiodd Duw hwy a dweud, “Byddwch ffrwythlon ac amlhewch, llanwch y ddaear a darostyngwch hi; llywodraethwch ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ac ar bopeth byw sy'n ymlusgo ar y ddaear.”

(Genesis 1: adnod 28 o gyfieithiad y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004)

A dyma Duw yn eu bendithio nhw, a dweud wrthyn nhw, “Dw i eisiau i chi gael plant, fel bod mwy a mwy ohonoch chi. Llanwch y ddaear a defnyddiwch ei photensial hi; a bod yn feistr i ofalu am y pysgod sydd yn y môr, yr adar sy'n hedfan yn yr awyr, a'r holl greaduriaid sy'n byw ar y ddaear.”

(Genesis 1: adnod 28 o o gyfieithiad beibl.net)

Dros y canrifoedd diwethaf, mae Cristnogaeth wedi cerdded law yn llaw gyda'r gred mewn cynnydd, bod y ddynoliaeth yn camu o ris i ris at wella'i hun. Hawdd iawn oedd i Gristnogaeth gefnogi pob dyfais a datblygiad modern a'u gweld fel arwydd o fendith Duw yn lle holi a herio safbwyntiau'r oes fel y dylent. Gwelwyd y blaned fel ffynhonnell ddi-ben-draw o adnoddau i fwydo

cynnydd parhaus yn y boblogaeth a chynnydd yn safon byw i gyfran o'i phoblogaeth, ond nid pawb wrth gwrs.

Hwyrach ein bod fel Cristnogion ar fai am ddiolch yn ddi-gwestiwn, am awgrymu mai stôr diwaeld ydy adnoddau'r byd, am ddehongli Genesis pennod un adnod 28 fel trwydded i ddisbyddu'r blaned o'i mwynau, i borthi'n hawydd am fwy o hyd. Onid ydy diolchgarwch ar ei waethaf yn fynegiant o ymfrost ac yn ddathliad o fyw gwastraffus? Sylwch wrth i gyfieithwyr y Beibl fynd yn ôl at yr Hebraeg gwreiddiol ym mhob cyfnod sut y mae eu dewis o eirfa wedi newid. Esblygodd 'darostyngwch' a 'arglwyddiaethwch' cyfieithiad William Morgan i eiriau mwy gofalgar y cyfieithiad diweddaraf sy'n cyfeirio at 'feistr' sy'n 'gofalu'.



Dydy David Attenborough ddim yn cefnogi Cristnogaeth na chrefyddau eraill, ond mae e'n gefnogwr brwd i'r blaned ryfeddol sy'n gartref i ni. Yn ei lyfr diweddaraf, 'A Life on our Planet', mae'n dangos y gwahanol ffyrdd y mae'r blaned yn gofalu amdanom a sut mae difrod i'r blaned yn fygythiad i ddyfodol y ddynoliaeth. Wrth adael i rewlifoedd doddi, wrth gwmpo'r coed yn fforestydd yr Amazon rydym yn cael gwared â'r union rwydweithiau ecologol sy'n diogelu'r ansawdd awyr addas a'r tymheredd cywir i gynnal bywyd dynol. Da ni'n niweidio'r union gydbwysedd sy'n mynegi gofal Duw amdanom.

Mae hi'n dymor diolchgarwch ac eleni fe'n gwahoddiwyd am y tro cyntaf erioed i wneud ein mawl yn brotest. Yn Emaus, byddwn yn dathlu Sul yr Hinsawdd ar Hydref y 10fed a dyna fydd ein Cwrdd Diolchgarwch. Yr hyn sy'n wahanol eleni yw ein bod wedi cofrestru'r gwasanaeth yma gyda'r bwriad o fod yn un o gannoedd os nad miloedd o eglwysi sydd am ddangos i lywodraeth y Deyrnas Unedig aLlywodraethau'r Byd fod ganddyn nhw gonsyrn am ddyfodol y blaned ac awydd i weld y gwleidyddion yn gweithredu ar frys i atal y difrod.

Rhwng Tachwedd y cyntaf a'r deuddegfed eleni cynhelir uwchgynhadledd fyd-eang arbennig yn Glasgow dan nawdd y Cenhedloedd Unedig (COP 26) i drafod Newid Hinsawdd a sut y mae'r gwleidydd yn bwriadu ymateb i'w her a bydd enwau'r eglwysi sy'n cynnal gwasanaeth Sul yr Hinsawdd yn cael eu cyflwyno fel

tystiolaeth o awydd cymaint ohonom i weld llywodraethau'n ymateb mewn ffordd sy'n gymesur â maint yr argyfwng.

Mewn cyfrol sydd ar fin ymddangos o Wasg y Lolfa, '**Pantycelyn a'n Picil ni**', mae'r gwleidydd a'r awdur Cynog Dafis yn pwysleisio rhai o'r hanfodion ar gyfer Cristnogaeth yn y byd newydd sydd o'n blaenau. Mae angen i ni feithrin osgo o ryfeddod, parchedigaeth tuag at fywyd, gostyngeddrwydd sy'n meithrin diolchgarwch a'r sylweddoliad mai rhodd yw popeth sy'n eiddo i ni. Mae e hefyd yn gweld y bydd gostyngeddrwydd meddylgar yn ennyn empathi a chydymdeimlad ynom a'n hysbrydoli i ofalu am anffodusion y byd ac ennyn ynom 'ymroddiad ysol i gywiro'r camwri sy'n eu llethu'. *Ceri M Jones*

BE NESA?



Ers dechrau cyfnod y pandemig, mae'r Ysgol Sul wedi penderfynu cyfarfod mewn gwahanol ffyrdd. Cawson hwyl wrth gynnal Ysgol Sul Zoom a medru gwyllo fideos bach a gweld wynebau'n gilydd gyda phawb yn gysurus braf yn eu cartrefi. Da ni hefyd wedi cyfarfod nifer o weithiau yng ngardd Emaus ac erbyn hyn mae gennym Gazebo sy'n creu lle braf i sgwrsio a thrafod yn yr awyr iach. Diolch yn fawr i Arwel a Dilwen a Dylan a phawb sydd wedi helpu i godi'r Capel Cyfnas. Gan nad ydyn ni'n teimlo'n gysurus ar hyn o bryd i fentro nôl i

stafelloedd y festri, rydym wedi penderfynu parhau gyda'r arbrofi. Y Sul yma (os ydy'r tywydd yn caniatáu) gobeithiwn gynnal gwasanaeth byr awyr agored a bwyta cinio gyda'n gilydd ym Mharc Hamdden Gelli Gyffwrdd. Ar gyfer Sul Diolchgarwch mae 'na wasanaeth Sul yr Hinsawdd ar y gweill ac rydym yn parhau i orffen trefniadau'r Capsiwl amser sy'n prysur lenwi. Diolch i bawb o bob oed sydd wedi gyrru deunydd atom ac i Lowri, Lucy, Dilwen a Glenda am eu ffyddlondeb i do iau Emaus dros y misoedd anodd a fu. Da ni am ddal ati ar daith anturus yr Ysgol Sul am y misoedd sydd i ddod ac i barhau i holi'n gyffrous - be nesa?

C.M.J

EGLWYSI YN YSTOD FY NGYRFA YN YR HEDDLU

Erbyn hyn rwyf wedi byw ym Mangor am y rhan helaethaf o'm bywyd, dros drigain mlynedd mewn dau gyfnod. O edrych yn ôl ar fy nghrwydriadau, rwyf wedi byw mewn pedair tref, wedi symud ty saith gwaith, a bum yn aelod mewn chwe eglwys. Cefais fy ngeni yn Sir Geredigion ar bwys Blaenplwyf ac yna symud, pan oeddwn yn dair oed, i bentref Cwmlinau yn nyffryn Dyfi. Fi oedd yr ail o bedwar o blant, dau frawd a chwaer. Cawsom fagwraeth hyfryd mewn pentref gwledig lle ceid dau gapel, Sambah yr Annibynwyr a Soar y Wesleiaid. Y Parchedig R C Evans oedd gweinidog Sambah a'r Parchedig Gwilym R Tilsley oedd gweinidog Soar. Roedd cydweithio arbennig rhwng y ddwy eglwys ac yn aml byddem yn cydaddoli. Bob nos lau drwy'r flwyddyn, heblaw mis Awst, cynhelid 'Band of Hope' ac yno byddem yn dysgu nodau gyda'r 'modulator', canu emynau, a chael darlleniadau a thrafodaethau.

Annibynwyr oeddem ni fel teulu ac aelodau yng Nghapel Sambah. Roedd fy nhad yn bregethwr cynorthwyol hyd at ei farwolaeth yn 49 mlwydd oed. Roedd teulu Olwen hefyd yn aelodau yn Sambah, ei thad yn ddiagon ac yn godwr canu a'i mam yn organyddes. Yng Nghapel Sambah y bu ein priodas yn 1957. Ym mynwent Sambah y mae beddau ein rhieni ac yn naturiol, felly, mae'r pentref yn dal i fod yn lle arbennig inni ein dau. Fel sydd yn digwydd mewn llawer i bentref ac ardal erbyn hyn, mae

Soar
w e d i ' i
werthu a
C h a p e l
S a m m a h
mewn cyflwr
bregus iawn.



Capel Sambah

Wedi ymddeoliad y Parchedig R C Evans, bu'r Parchedig Hopkin Jenkins yn weinidog yn Sambah a dwy eglwys arall, Horeb ym mhentref Aberangell a Nebo yng Nghemaes Road, lle sydd bellach yn cael ei adnabod fel Glantwymyn. Dyma daith hyfryd gyda'r Mans yng Nghwmlinau.

O golli fy mam yn 1954 ymunais â Heddlu Gwynedd a threuliais dri mis ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cael fy mharatoi i fod yn heddwas. Tra yno, cofiaf fod mewn oedfa yng nghapel Annibynwyr Pen-y-bont ar Ogwr a chwrdd John Owen, gynt o Aberangell, oedd erbyn hyn yn athro ac yn byw yn lleol. Tad Dylan Owen, Penrhosgarnedd, wrth gwrs, oedd John Owen.

Ar ôl dyddiau Pen-y-bont cefais fy anfon i weithio ym Mhwlheli yn Chwefror 1956, ac yno bum yn mynychu Capel Penlan. Y Parchedig Ted Lewis Evans oedd y gweinidog. Byr iawn fu cyfnod Pwllheli cyn cael fy symud i Fangor. Wedi prïodi bu Olwen a minnau yn byw yn ardal Pen-lôn ac yn mynychu Capel Pendref gyda'r Parchedig R G Owen yn weinidog. Roedd R G Owen wedi bod yn weinidog yn yr Hen Gapel, Llanbryn-mair a thra yno ef a briododd fy mam a nhad. Wedi ymddeoliad y Parchedig R G Owen, yr oeddem yn falch iawn o gael y Parchedig John Gwilym Jones yn weinidog ar Eglwys Annibynnol Bangor, uniad o gapeli Ebenezer a Phendref.

Ym Mangor cwrddais â pherthynas i mi na wyddwn ddim am ei bodolaeth. Yr oedd Mrs Annie Griffiths, Fron Heulog, Ffordd Garth Uchaf yn gyfnither i fy nhad. Bu ei gwr, Mr Llew Griffiths, yn Drysorydd Pendref.

Gwr a fu yn weithgar yng Nghapel Ebenezer oedd Mr R A Pryce. Un o Aberangell oedd o yn wreiddiol, ac yr oedd wedi ymddeol o Heddlu Gwynedd. Enillodd Sgt. Pryce y Ruban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli yn 1955. Bu yn godwr canu yn Ebenezer a Phendref.

Yn 1967 ffurfiwyd Heddlu Gogledd Cymru ac yn 1971 fe'm symudwyd i dref Fflint. Yno mynychwn Capel Caersalem lle roedd y Parchedig Cledwyn Griffith yn weinidog. Fe'm croesawyd yno'n gynnes. Cadeirydd Mainc Llys Ynadon y Fflint yn y cyfnod yna oedd tad Gareth Ffowc Roberts. Yn 1973 bu'n rhaid symud eto, y tro yma i Gonwy gan fod yn gofalu am ardal yn cynnwys Penmaenmawr a rhan helaeth o ddyffryn Conwy. Mynychwn Capel Salem yng Nghonwy, eglwys dan ofalaeth y Parchedig D Miles, Capel Coffa Cyffordd Llandudno.

Yn 1976 cefais ddychwelyd i Fangor lle'r oeddwn yn gyfrifol am ardaloedd Bangor, Llanfairfechan, Bethesda, a Dyffryn Ogwen. Ail ymunais ag Eglwys Annibynnol Bangor. Braint fawr i mi oedd cael bod yn ddiagon am gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain ac yn Drysorydd am gyfnod o ddeng mlynedd.

Yn 1978 fe'm dyrchafwyd i fod â gofal am Adran Drafnidiaeth Ardal Gortlewin Gogledd Cymru. Yn 1986, ar ôl cyfnod o ddeng mlynedd ar hugain o waith heriol, cyffrous, lliwgar oedd yn gofyn am ymroddiad llwyr, bu imi ymddeol. Yr oedd fy ngyrfa wedi rhoi llawer iawn o foddhad i mi a 'nghysylltiad â'r chwe eglwys wedi bod yn wir fraint.

Dewi Davies



DIOLCH.

Dymuna
Kath a Glyn Jones
ddiolch o galon
am yr holl gyfarchion
a dderbyniwyd ganddynt
gan aelodau Emaus
ar achlysur dathlu
chwedeg mlynedd
o fywyd priodasol.

Cawsant
ddiwrnod i'w gofio
yng nghwmni'r teulu
a'u morwyn briodas.



BLODAU YN Y CAPEL



Gan ein bod yn cyfarfod yn fwy aml yn y capel ar gyfer y gwasanaethau, oes modd i mi dderbyn enwau a manylion cyswllt os ydych yn fodlon rhoi blodau yn y capel.

Oherwydd y cyfyngiadau, ni fydd yn bosib rhoi rhestr yn y cyntedd fel sy'n arferol, felly gofynnaf yn garedig i chi wirfoddoli ar gyfer hyn drwy roi gwybod i mi os oes Sul arbennig hoffech gael y siawns o roi blodau.

Os oes anhawster i gyrraedd y capel ond eich bod yn dymuno rhoi blodau, gadewch i mi wybod i allu trefnu ar eich cyfer.

*Diolch
Meriel*

merielparry@gmail.com
neu 01248 352205

LLWYDDIANT YSGUBOL

Llongyfarchiadau gwresog i Morgan Sion Owen, mab Carol a Dylan ar ei lwyddiant yn yr Eisteddfod AmGen yn y gystadleuaeth Gwêd Di a D'ud Di - sef cystadleuath berfformio yn yr iaith lafar. Yn ôl Gwilym Dwyrfor, colofnydd radio a thedu'r cylchgrawn Golwg, perfformiad buddugol Morgan oedd peth gorau a wlydodd o'r Eisteddfod.
Dyma Morgan yn egluro sut yr aeth ati i baratoi a chyflwyno'r deunydd.



GWÊD DI A D'EUD DI

Roedd y gystadleuaeth **Gwêd di a D'eud di** (*Ar y thema Man a lle*) yn yr Eisteddfod AmGen eleni'n hynod arloesol ac felly fe ddaliodd fy llygaid yn syth. Rydym ni gyd wedi arfer gyda'r dull confensiynol o gystadlu mewn eisteddfod, sef pawb yn defnyddio'r un testun, ond roedd hwn yn rhoi cyfle i unigolion ddewis pwnc, geiriau, a lleoliad sy'n unigryw a pherthnasol iddyn nhw, ac o ganlyniad, yn cynnig haen ychwanegol, ddifyr iawn i'r gynulleidfa ddadansoddi a mwynhau.

Serch hynny, gyda mwy o ddewisiadau i'w gwneud, mae'r her yn cynyddu. Her enfawr oedd dewis beth i ganolbwyntio arno yng Ngogledd Cymru. Daeth tipyn o leoliadau i'r meddwl; Chwarel Penrhyn, Glannau'r Fennai a Mynyddoedd Eryri, ond yn aml, nid pell yw gwell, a phenderfynais ganolbwyntio ar fy ninas i, Bangor. Mae fy athro Cefin Roberts yn gyfarwydd iawn gyda Bangor, ac felly roedd o yn gallu rhoi darlun clir i mi o sut mae Bangor wedi newid dros y blynyddoedd.

Mae'n siom gorfod cydnabod fod Bangor wedi profi rhywfaint o ddirywiad dros y degawdau diwethaf. Mae nifer o fusnesau wedi cau ac mae'r sefyllfa Covid wedi amlygu hyn ymhellach. Teimlais mai'r lleoliad sy'n delweddu'r dirywiad orau ydy Bangor Uchaf. Er bod Bangor Uchaf dal yn gymharol fywiog

gyda myfyrwyr, 'does dim cymhariaeth rhwng heddiw a degawdau'n ôl pan oedd yn hwb diwylliannol sydd wedi cael ei grynhai a' ddisgrifio'n berffaith gan Bryn Fôn yn ei gân '*Mardi Gras ym Mangor Uchaf*'. Penderfynais amnewid geiriau Bryn Fôn am rai mwy negyddol, sy'n rhoi darlun gonest achywir am sefyllfa Bangor Uchaf a Ffordd Caergybi. Roedd y rhain yn ystyried yr holl golledion mae Bangor wedi eu gweld, megis cwmnïau theatr, gwyliau, actorion adnabyddus, a Bryn Fôn ei hun yn gadael. Mae hwn yn ddelwedd ddiobaith a thrwm, ac felly roedd angen elfen gadarnhaol i gyferbynnu gyda hyn. Roedd angen lleoliad mwy bythol, sydd heb gael ei drechu, yn ogystal â bod yr un mor adnabyddus â Bangor Uchaf. Gyda lwc, roedd Steve Eaves wedi cael yr un syniad, a gwelir yr agwedd gadarnhaol yma yn ei gerdd '*Garej Lon Glan Môr*.'

Mae '*Garej Lon Glan Môr*' yn gwerthfawrogi rhywbeth sydd ar yr arwyneb, yn ymddangos yn gyffredin ac anniddorol. Serch hynny, mae yna wefr i'r garej, gan ei fod wedi bod yn gefn parhaus i bawb ym Mangor a heb ein bradychu. Er bod Bangor Uchaf yn fwy cyfareddol na'r garej yma, darfodedig oedd cyfnod disglair Bangor Uchaf, tra mae'r garej dal i bwmpio petrol hyd heddiw. Mae Steve Eaves yn gwerthfawrogi gweithwyr clên y garej, ei olau sydd i'w weld o bell fel goleudy, a'i natur ddiffwdan. Roedd hwn yn gyfle i werthfawrogi'r gwir Fangor a sylweddoli fod y digwyddiadau fel y Mardi Gras yn fyr ac yn rhan fach o'r ddiinas. Roedd angen cloi yn gadarnhaol, ac roedd cerdd Steve Eaves yn berffaith i wneud hynny.

Fe wnes i fwynhau'r profiad o ddadansoddi'r testunau a ffilmio ar gyfer y gystadleuaeth, a braint oedd cael ei leoli'n fy ninas enedigol. Roeddwn hefyd yn hynod ffodus o gael y cyfle i gydweithio gyda fy athro Cefin Roberts ar y darn gan fanteisio ar ei greadigrwydd a'i wreiddioldeb.

PAWB AT Y PETH Y BO!

Doedd dim llawer o awydd crwydro ymhell ar wyliau eleni. Wedi'r cyfan, mae gennym bopeth ar garreg y drws - golygfeydd godidog - y môr a'r mynydd - a chymaint o lecynnau diddorol a hanesyddol i ymweld a nhw.

Mae ambell un o'n haelodau hŷn wedi deisyfu dipyn bach mwy o gyffro yn y cyfnod yma, heb orfod teithio'n rhy bell.

Yn ol y sôn, cafwyd dipyn o wefr ar y Wifren Wib ym Mlaenau Ffestiniog.



MUDIAD CHWIORYDD UNDEB BEDYDDWYR CYMRU

Ni chynhaliwyd y Cyfarfodydd Blynyddol eleni, unwaith eto oherwydd cyfyngderau COFID. Felly roedd yn amhosibl dosbarthu copiâu printiedig o Cwlwm (cylchgrawn y Mudiad) yn y ffordd arferol. Ond mae Cwlwm Medi 2021 ar gael o wefan yr Undeb, i'w ddarllen ar lein neu ei lawr lwytho. Os nad ydych yn gallu gwneud hynny ac yn hoffi cael copi printiedig cysylltwch â fi ar 01248

364665. Mi fedraf drefnu cael copi i chi am 50c. Diolch yn fawr.

RHAGHYSBYSIAD

Rydym yn gobeithio cynnal oedfa Dydd Gweddi Chwirydd Bedyddiedig y Byd 2021 ar Ddydd Llun, Tachwedd 1af am 2yh, unai ar Zoom neu yn y cnawd yng Nghaersalem, Caernarfon. Manylion i ddilyn.

Eleri Lloyd Jones

Mudiad Chwirydd
Undeb Bedyddwyr Cymru



GWERTHFAWROGI

Hoffem ddatgan cymaint yr ydym yn gwerthfawrogi'r holl ymdrechion a wneir i gadw Emaus i fynd yn ystod y cyfnod hirfaeth yma. Dim ar chwarae bach mae cadw'r achos ynghyn - ystyried canllawiau'r llywodraeth ynglyn a Covid 19, gofalu am yr adeilad, gwneud yn siwr bod digon o arian yn y coffrau, trefnu'r gwasanaethau - y zoom ag ati. Mae cymaint i'w wneud a'r Swyddogion yn rhoi oriau di ben draw i sicrhau fod popeth yn mynd yn hwylus a hynny mewn ffordd mor effeithiol a di ffordd.

Mae cael y gwasanaeth ar fore Sul ar y ffôn, fel yn ein hachos ni, yn rhoi hwb ar gyfer yr wythnos i ddod - clywed Helen neu Nia yn cyfeilio yn eu tro - a gwrando ar y sgysiau ymhlith yr aelodau sy ar zoom.

Gwell fyth ydy cael ymweld ag Emaus ambell i fore Sul. Ydy, mae hi'n wahanol yno - gwisgo mwgwd a chadw pellter - a Casi tu ôl i sgrin - yn weladwy wrth gwrs! Mae'n hyfryd clywed yr organ yn cael ei chwarae - a dan ni'n cael canu tu ôl i'r mwgwd! Fel 'na mae hi ar hyn o bryd - ac fel 'na y bydd hi am sbel mae'n siwr. Pwy a wyr! Ydy, mae hi'n sefyllfa anodd ac mae hi'n dipyn o waith ein cadw'n un teulu mawr. Ond mae gweld gwen lydan Casi yn siwr o'n llonni ar fore Sul - a'i negeseuon cyson gobeithiol yn ein hysbrydoli i gadw i fynd ar gyfnod moranodd yn ei bywyd. Hithau mor ofalus ohonom - o'r fenga i'r hyna a'i chonsyrn am ein haelodau mwya bregus mor amlwg.

Ann a Gareth Roberts

DYMUNO'N DDA.

Dymunwn yn dda i bawb o'n haelodau sy'n anhwylys y dyddiau hyn ac yn gaeth i'w haelwydydd.

Cofiw'n am Richard Gwynedd Roberts sy'n gobeithio cael dod adref o Ysbyty Gwynedd.

Mae'n dda deall bod Mair Gray yn gwella ar ôl treulio wythnosau'n gaeth yn y ty - a bod Gareth Jones yn cryfhau ar ol torri pont ei ysgwydd.

Anfonwn ein cofion at Bet Eurig Davies a Vera Griffiths ym Mhlas Hedd.

MUNUD I FEDDWL



*Maureen gyda'i wyres, Betsi
Merch Guto a Heledd*

Deunaw mis o'r 'Pandemig a'r Clo Mawr' y byd yn le llawer mwy peryglus nag yr oedd o cyn y clo.

Cyfnod o fod yn barod am y gwaetha tra'n gobeithio am y gora. Gormod o amser i hel meddylia a poeni am bethau hollol ddibwys. Efallai mai arwydd o fynd yn hŷn ydio. Mae'n wir bod y person mwyaf optimistaidd yn cael ambell i bwl bach weithia.

Tydi hi ddim wedi bod y fêl i gyd ar y bobol ifanc chwaith, wedi'r cwblwyl yn nhw fydd yn gorfod talu, mewn sawl ffordd am hyn i gyd. Ar ddechrau'r 'aflwydd mawr', mewn cylchgrawn, mi ddois ar draws y geiriau yma.

*Tradition is not a prison
it's a guide*

Geiriau gobeithiol iawn a ninnau'n byw ar gyrion ardal, sydd bellach, yn perthyn i 'Dreftadaeth y Byd',

Dyma'r cyfle i ni wneud yn fawr o'r hyn sydd ar ein steipan drws ni, boed hynny'n chwarel neu gastell.

Mae amser gwell i ddod, a hynny'n nwylo'r ifanc. Does bosib y gwnawn nhw waeth job ohoni. Y trasiedi ydi ei bod nhw yn etifeddu byd sy'n llanast. Y nhw bellach ydi'r 'tywyswyr'.

Pob lwc iddyn nhw. Ymlaen mae Canaan.

Maureen Rhys

CYFARFOD AM Y TRO CYNTAF

Pa nain a thaid
a all anghofio'r wefr
o weld eu hŵyr neu
wyres am y tro cyntaf un.

Wedi hir ymaros
cyrhaeddodd
Betsan Rhiannon Llwyd,
merch Owain ac Emma,
gartref taid a nain,
sef Nia a Dewi Llwyd,
yr holl Ffordd o Dubai.
Dychmygwch y croeso.

GADAEI AM Y COLEG

Bydd dau o'n haelodau fenga yn gadael am y coleg am y tro cyntaf, gyda hyn.

Hwyl fawr i Elain Edwards sydd yn dilyn ôl troed ei thad, Marc, i ddilyn cwrs meddygaeth yng Nghaerdydd.

I'r brifddinas yr aiff Morgan Sion Owen, hefyd, i astudio'r Gymraeg.

Bydd Gethin Ellis yn dal ymlaen yn Leeds, Medi Morgan a Gruffydd Eirug yng Nghaerdydd, Ioan Bryn yn Lerpwl.

Troi ei golygon at Lundain wnaiff Gwenno Morgan i ddilyn gradd uwch.

Ein dymuniadau gorau iddynt a gobeithio y cânt brofiadau brafach yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

CORNEL POSAU GARETH

ATEB I BOS AWST/MEDI 2021

POS Y TRAETH


Roedd gan Elis 18
o ddewisiadau
gwahanol

POS HYDREF 2021

POS TEIS

Mae gen i 35 o deis yn y cwpwrdd,
rhai ohonynt yn deis streiplyd,
dwbl y nifer hynny yn deis plaen,
a dwbl y nifer hynny wedyn yn deis blodeuog.
Sawl tei blodeuog sydd gen i?

Bydd yr ateb yn rhifyn Tachwedd.



CHWIORYDD



Pnawn Mercher, Medi 15fed cyfarfu Chwiorydd y Bedyddwyr dros Zoom. Hwn oedd y diwrnod pan oeddm wedi gobeithio cynnal Cyfarfod Blynyddol y Mudiad yn Y Tabernacl, Caerdydd pan fyddai Ruth Davies yn dod yn Llywydd. Oherwydd cyfyngiadau Cofid19, penderfynwyd mae cynnal cyfarfod rhithiol fyddai'r peth doethaf i'w wneud eto y flwyddyn yma. Cyflwynodd Ruth wasanaeth pwrpasol ac amserol yn sôn am ffoaduriaid gan roi sylw i gynllun Tre Biwt yng Nghaerdydd sydd wedi llwyddo i gartrefu teulu o Syria. Cymerwyd ran gan chwiorydd Y Tabernacl. Edrychwn ymlaen yn hyderus i 2022 gan obeithio cael cyfarfod swyddogol i drosglwyddo'r llywyddiaeth o ddwylo Eleri i Ruth.

Fel canlyniad i'r cyfarfod, llwyddwyd i drefnu fod Ann Bowen Morgan yn casglu'r gwaith gwau soniwyd amdano yn rhifyn Awst/Medi o'r Negesydd. Yn y llun, gwelir Ann yn edmygu'r gwaith cywraïn a lliwgar iawn a hoffem ddiolch eto i Myfanwy am y gymwynas. Cawn wybod maes o law os oes angen rhagor o'r nwyddau.

Siân Arwel Davies

GARDDIO

Yn ôl pob son mae sawl garddwr llwyddiannus iawn ymhlith aelodau Emaus - yn tyfu llysiau a ffrwythau. Yn eu plith, mae na un aelod sy'n cael plaser di ben draw yn tyfu - ac yn gosod blodau.


Efallai bod rhai ohonoch yn gwyllo'r rhaglen deledu **Garddio a Mwy** ar S4C. Yn y rhifyn olaf o'r gyfres cafwyd cip ar ardd flodeuog, liwgar Iona Jones ym Mhentre Llandygai. Daeth yn agos i'r brig mewn cystadleuaeth arddio a drefnwyd gan S4C. *Llongyfarchiadau, Iona.*



Iona Wyn Jones

Llun o ardd Iona
a ddangoswyd ar y rhaglen *Garddio a Mwy*.

AM YN AIL



John Gwilym Jones
Tudur Dylan Jones

Wedi clywed bod cyfrol o farddoniaeth gan y Parchedig John Gwilym Jones cyn weinidog Pendref, a'i fab Dylan, neu Tudur Dylan fel yr adnabyddir ef erbyn hyn, ar fin dod allan o'r wasg, rhaid oedd archebu copi ar frys.

Wedi'r cwbl, mae'r teulu yn rhan o wead ein cartref yma yn Nhrefywel. Trehywel oedd mans Pendref ar un cyfnod, wrth gwrs. Yma mae silffoedd praff a chypyrddau a gododd John. Y deunydd crai o Barc Nest ambell waith. Dim saer geiriau yn unig ydy John. Yn Nhrefywel y treuliodd Dylan flynyddoedd ei blentyndod ynghyd ag Eilir, ei frawd a Nest ei chwaer yng nghwmni eu rhieni Avril a John. Yma ar ffram drws y gegin y byddai John yn nodi taldra'r plant bob hyn a hyn.

Mae'r gyfrol yn drysor. Y tad a'r mab yn ysgrifennu cerdd am yn ail. Y ddau yn feistri ar eu crefft fel y gwyddom yn dda. Yma ceir y dwys a'r digri, yr ysgafn a'r dirdynnol. Pob darn wedi'i saernio'n berffaith.

Mae 'na gerdd annwyl a thyner i'w fam, Avril, gan Dylan. Ceir cyfeiriad at Roman Camp yng nghwmni tŷ, cof plentyn Dylan ohono.

Sgwennodd John yn hyfryd am Gwyn Thomas, un o hoelion wyth Pendref - ac am Jâms Nicholas, cyn ysgrifennydd, Penuel.

Mae'n debyg mai un o'n ffefrynnau ydy'r gerdd 'Moel Wnion' gan Dylan - sef yr olygfa a welai o ffenast lolfa Trehywel, golygfa a'i swynai yr holl flynyddoedd yn ôl - fel y byddwn ninnau'n gwirioni arni heddiw.

Ann a Gareth

TRAIIDCRAFT



Braf iawn oedd cael cynnal ein "Bore Coffi" cyntaf ers cyn y clo. Er i ni lwyddo i werthu nwyddau drwy'r cyfnod anodd, 'roedd yn hyfryd cael gosod ein byrddau yn y festri unwaith eto, a derbyn pobl i mewn rhyw chwech ar y tro. Daeth pawb a'u paned efo nhw, a bu llawer o gymdeithasu yn y gasibo tu allan. Gobeithiwn gadw'r un drefn y tro nesaf, sef:

**Bore Sadwrn
Hydref 2il
o 10-12 o'r gloch.**

Mae'r adnoddau ganddom rwan i weini coffi y tu allan, a byddwn yn defnyddio'r gasibo mawr, rhag ofn na fydd y tywydd mor ffafril.

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu.

Catrin



CYLCH DARLLEN

Bydd Cylch Darllen
cynta'r tymor
yn cyfarfod
yn festri Emaus am
ddau o'r gloch
bnawn Gwener 8 Hydref.



Sylwer ar y newid yn y dyddiad a'r lleoliad o ganlyniad i reoliadau Cofid.

Y llyfrau a drafodir fydd dwy gyfrol arobryn Lleucu Roberts, sef **Hanna-Jane** a **Y Stori Orau**.

Os ydych yn bwriadu bod yno mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i Cathrin Williams erbyn dydd lau y 7fed fan bellaf (catherine.williams@gmail.com). Cofiwch fod croeso cynnes i bawb o'n darllenwyr brwd!

ebost: cathrin.williams@gmail.com

**Mae ein diolch y mis yma
i Gareth ac Ann Roberts
am gasglu**

**a chydlynu'r wybodaeth
ar gyfer y rhifyn yma.
*a diolch i bawb am eu
hynawsedd yn cyfrannu
a thrwy hynny'n cyfoethogi'r
rhifyn yma o'r Negesydd***

*Dylid gyrru'r holl wybodaeth
ar gyfer rhifyn Tachwedd y Negesydd
i Cathrin Williams*

e-bost: cathrin.williams@gmail.com
Ffôn: 01248 712576

*Neu, os y dymunwch, yn syth i'r
Negesydd*

e-bost : negesydd@btinternet.com

TRAC Y DYDD

Yn yr oes o'r blaen, sef y dyddiau cyn COVID-19, roedd technoleg yn rhan eithaf amlwg o fywydau'r mwyafrif ohonom. Ond ers deunaw mis bellach, mae ein dibyniaeth beunyddiol arno wedi bod yn allweddol. Pan oedd cyfyngiadau'r cyfnodau clo ar eu gwaethaf, fe brofodd y dechnoleg fodern yn arbennig o fendithiol inni a daeth Zoom i'n ceginau ac yn air cyfarwydd mewn sgwrs a gweithred.

Ers rhyw flwyddyn neu ddwy cyn i'r haint wthio'n cymdeithas oddi ar ei hechel, roedd dwy ffrind a minnau wedi creu platfform i gael sgwrs ar WhatsApp yn dwyn y teitl 'Tair yn Trafod'. Roedd yn cynnig cyfle rhad ac am ddim i rannu newyddion neu ddymuno'n dda ar achlysur arbennig. Ond, er mor ddifyr a chyfleus oedd ei ddefnydd, ni sylweddolwyd ei wir werth nes i ni fyw drwy gyfnod na fu ei debyg erioed o'r blaen.

Beth ddigwyddodd oedd hyn : mi benderfynodd un ffrind, y bore cyntaf swreal hynny wedi'r cloi ym Mawrth 2020, rannu trac cerddorol o storfa helaeth YouTube. Cân obeithiol oedd hi, ynghanol y dryswch a'r anghrediniaeth - ac mi wnaeth hynny am gan niwrnod. Ar y Sul, roedd hi'n rhannu 'oedfa' oedd yn cynnwys adnodau o'r Beibl a chyfle i fyfyrwyr wrth wrando ar gerddoriaeth sanctaidd neu fiwsig oedd yn fframwaith i funud neu ddau o feddwlgarwch. Yna, fe gymerodd y ffrind arall yr awennau am y can niwrnod canlynol, nes y daeth fy nhro innau. Mae'r 'cyloch' yn dal i droi ac wrth imi ysgrifennu'r ychydig eiriau yma, mae'n dro i minnau eto a bron i bum cant a hanner o foreau wedi gwawrio ers i mi wrando ar y 'Trac y Dydd' cyntaf hwnnw.

Bu'r cyswllt beunyddiol yn gysur rhyfeddol yn ystod adeg mor ansicr a chefais f'atgoffa o'r ffaith fod cerddoriaeth a chyfeillgarwch yn cyfoethogi ein dyddiau mewn modd amhrisiadwy. Diolch i ti, Nia, am gael y syniad yn y lle cyntaf ... a diolch i'r dechnoleg am hyrwyddo'r gynhaliaeth drwy gyfnod dyrys a digynsail.

Eleri Richards



PRIODAS

Ar 24 Gorffennaf 2021 yng Nghapel Emaus Bangor priodwyd Ffion Haf Roberts Tyn Llan, Llansadwrn efo Osian Huw Pritchard. Gweinyddwyd y seremoni hyfryd gan y Parch Casi M Jones. Diolch yn arbennig i'r organyddes Nia Llwyd, i'r delynores Helen Wyn Pari, i'r unawdydd William Hugh Jones ac i swyddogion y Capel am eu parodrwydd i helpu gyda'r trefniadau.

Cynhaliwyd y wledd briodasol yng ngerddi Pen y Bont Bach, ger lan y môr Pentraeth. Mae Ffion yn Uwch Gyfrifydd gyda'r BBC yng Nghaerdydd, ac Osian yn athro yn ysgol Santes Tudful. Mae'r ddau yn ymgartrefu yng Nghaerdydd. Pob dymuniad da i'r pâr ifanc yn eu bywyd priodasol.

DECHRAU'N GYNNAR - ac yn dal ati.



Mae yna ddarn o gelf yng nghartref Valerie Ellis sy'n dod ag atgofion melys iddi am gyfnod ei phlentyndod.

Dim ond naw oed oedd hi pan gafodd ei chymell i chwarae'r harmonium ar gyfer y gwasanaethau yng Nhapel Horeb (Annibynwyr) ym Mynytho. Mwynhai fod wrth yr harmonium. Ymhen amser, cafwyd organ newydd. Braidd yn drist oedd Valerie wrth ffarwelio a'r harmonium, ond daethpwyd o hyd i grefftwr medrus iawn a luniodd hambwrdd iddi o rannau o'r offeryn. Bu Valerie'n organyddes yn Horeb am flynyddoedd lawer. Ym Mynytho yr ymgartrefodd hi a'i gwr Tecwyn Ellis a magu'r plant - Dafydd, Elin a Catrin - cyn symud i Benrhosgarnedd rai blynyddoedd yn ôl.

Erbyn hyn, daeth tro ar fydd i Gapel Horeb, Mynytho. Ciliodd yr aelodau. Y mis yma, bwriedir cynnal y gwasanaeth olaf a datgorffori'r capel. Gwahoddwyd Valerie i gyfeilio yn y cyfarfod olaf.

Mae yna bedwar ugain mlynedd ers i Valerie

ddechrau chwarae'r harmonium fechan yn Horeb. A dyma hithau'n dal i'n swyno fel cynulleidfau yn Emaus, fel y gwnaeth ym Mhendref cyn hynny.

Daliwch ati, Valerie.



Mae'r lluniau yma yn dangos, yn fwy manwl, rhai o 'stops' yr hen harmonium a cylchig y gwneuthurwr Ffrengig a drosglwyddwyd i hambwrdd Valerie.



Yr oedd cwmni Christophe & Etienne yn gwmni harmonium a ffurfiwyd tua 1860 gan ddau ddyn a oedd yn gweithio cyn hynny i'r cwmni harmonium mwyaf blaenllaw yn Ffrainc

- *Alexandre Pere & Fils.*

Mae cylchig y gwneuthurwr yn dangos y dyddiad 1894 i un o'i anrhydeddau felly fe wnaed harmonium Valerie ar ôl y dyddiad yma.



PROFIAD NEWYDD



Cynulleidfa Y Priordy yn y capel
a chynulleidfa Emaus ar Zoom



Parch Beti Wyn James

Dyma a gafwyd fore Sul, Medi 19. Ymunon ni, aelodau Emaus, dros zoom a'r ffôn a chynulleidfa y Priordy, Caerfyrddin yn eu capel ar gyfer eu gwasanaeth boreol dan arweiniad eu gwenidog, Parch Beti Wyn James. Bu'n brofiad diddorol a gwerthfawr.

Wrth ffarwelio a'i chynulleidfa yn y Priordy, dymunai Beti Wyn yn dda i'w haelodau- un ohonynt oedd Gwyn Bowyer. Efallai bod rhai ohonoch yn cofio'i dad, Parch Gwilym Bowyer - a fu'n weinidog ar Ebenezer yma ym Mangor cyn iddo ddod maes o law yn brifathro ar Goleg Bala Bangor.

OEDFAON HYDREF

- 3 Hydref** *Oedfa gymun yn y capel ac ar Zoom am 10 dan ofal y gweinidog.*
- 10 Hydref** *Oedfa Diolchgarwch Zoom am 10 dan arweiniad plant a phobl ifanc yr Ysgol Sul.*
- 17 Hydref** *Oedfa Zoom am 10 dan arweiniad pregethwr gwadd.*
- 24 Hydref** *Oedfa yn y capel ac ar Zoom am 10 dan ofal y gweinidog.*
- 31 Hydref** *Oedfa yn y capel ac ar Zoom am 10 dan ofal yr aelodau.*